OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1890 (Cy.184)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - -	*20 Gorffennaf 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*23 Gorffennaf 2010*
Y n dod i rym - -	*13 Awst 2010*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy gan adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) gyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriad at yr offeryn UE yn y Rheoliadau hyn gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Deuant i rym ar 13 Awst 2010.

Diwygio

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008(**3**) yn unol â pharagraff (2) o'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2 (Dehongli) yn y diffiniad o "samplau rheoli swyddogol"—

(i) hepgorer "neu" ar ddiwedd paragraff (b);

(**1**) 1973 p. 51.
(**2**) 1972 p. 68; mewnosodwyd paragraff 1A gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).
(**3**) O.S. 2008/2716 (Cy.245).